



CYNGOR TREF CAERFYRDDIN – DATGANIAD I'R WASG/EITEM NEWYDDION

1 Penwythnos y Siryf

Ym mis Medi 2017, cynhaliodd Cyngor Tref Caerfyrddin Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas Genedlaethol Siryfion Dinasoedd a Threfi Cymru a Lloegr (NACTSEW). Mae Caerfyrddin yn un o ddim ond 15 o lefydd ar draws Cymru a Lloegr (dim ond dau yng Nghymru – Hwlfordd yw'r llall) sydd â Siryf.

Yng Nghaerfyrddin caiff y Siryf ei benodi'n flynyddol a'i ethol o blith y grŵp o 18 Cyngorydd sydd ar Gyngor y Dref. Eleni, y Siryf Cyngorydd Phil Grice, sydd wedi dal y swydd dair gwaith yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, arweiniodd weithgareddau'r penwythnos, y cyfan wedi'u trefnu gan Gyngor y Dref.

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys derbyniad ar y nos Wener ac yna nifer o weithgareddau yn y dref ar y dydd Sadwrn, yn cynnwys ail-greu chwedlau yn seiliedig ar hanes Myrddin sy'n rhan fawr o chwedloniaeth y dref; teithiau tywys o'r dref gan gynnwys Amgueddfa'r Cwrwgl ar afon Tywi; taith i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol y tu allan i'r dref a chyflwyniad am 'Lyfr Du Caerfyrddin', y credir iddo fod y llawysgrif cwbl Gymraeg hynaf sydd ar ôl yng Nghymru.

Ar y nos Sadwrn daeth dros gant ac ugain o ymwelwyr i ginio blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg yn y dref a'r siaradwr gwadd oedd y darlledwr enwog Huw Edwards. Roedd clywed am rai o'i brofiadau cofiadwy yn fyw o flaen llygaid y byd yn ddadlennol ac yn hynod o ddiddorol.

Dilynwyd hyn ar y bore Sul gyda gwasanaeth dinesig yn Eglwys Sant Pedr, a arweinwyd gan y Canon Leigh Richardson. Yna cafwyd gorymdaith o Siryfion ac Arweinwyr Dinesig wedi gwisgo yn eu lifrai o Bencadlys Cyngor y Dref yn Neuadd Sant Pedr i Eglwys Sant Pedr. Roedd Band Chwyth Symffonig Caerfyrddin yn arwain yr orymdaith ac roedd hwn yn achlysur lliwgar a chofiadwy.

Roedd y penwythnos yn llwyddiant ysgubol a'r ymwelwyr o bob cwr o'r Deyrnas Unedig wedi mwynhau eu hamser yn y dref. Dywedodd Ysgrifennydd y Gymdeithas, Andrew Swinbourne o Berwick Upon Tweed: "Roedd pawb a gyfarfyddais yng Nghaerfyrddin yn groesawgar a chyfeillgar, yn ein Cymdeithas ac yn y dref yn gyffredinol yn ystod fy ymweliad. Roedd y penwythnos yn llwyddiant mawr dros y tri diwrnod a'r digwyddiadau, ac rwy'n gwybod fod llawer o bobl wrth eu boddau â'r cyfan ac yn enwedig y siaradwr gwadd yn y cinio."

Dywedodd Siryf Caerfyrddin Phil Grice "Bu'n anrhydedd cael croesawu Siryfion hen a newydd o bob rhan o Gymru a Lloegr i Gaerfyrddin ac rydym i gyd yn edrych ymlaen at eu croesawu yn ôl mewn pymtheng mlynedd."

Alun J Harries

Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin

Hydref 2017



